PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A PHLANT

DYDD MAWRTH, 30AIN TACHWEDD, 2021

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd D. Price [Cadeirydd]

Y Cynghorwyr:
S. Allen, L. Bowen, K. Broom, D. Cundy [yn lle G. Jones], R. James, D. Jones, B. Jones, J. Lewis, E. Schiavone a D. Williams

Aelodau Cyfetholedig:

A. Enoch	-	Rhiant Lywodraethwr
F. Healey-Benson	-	Rhiant Lywodraethwr
V. Kenny	-	Cynrychiolydd yr Eglwys Gatholig Rufeinig

Hefyd yn bresennol:
Y Cynghorydd G. Davies - Aelod o'r Cabinet dros Addysg a Phlant

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:
G. Morgans – Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg & Phlant
S. Davies – Pennaeth Mynediad i Addysg
A. Thomas – Pennaeth Gwasanaethau Addysg & Chynhwysiant
C. Griffiths – Rheolwr Datblygu'r Iaith Gymraeg
E. Forsyth – Pennaeth Gwella Ysgolion, Cwricwlwm a Lles Dros Dro
A. Jones - Ymgynghorydd Cefnogi Addysg
A. Davies - Prif Seicolegydd Addysg a Phlant
N. Tilley - Cydgysylltydd Iechyd a Llesiant
M. Evans Thomas - Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd [Cymerwr Nodiadau]
M. Davies - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
S. Rees – Cyfieithydd ar y Pryd
S. Hendy – Swyddog Cefnogi Aelodau [Gweddarlledu]

Rhith-gyfarfod : 10.00 am - 12.30 pm

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr G. Jones ac E. Thomas.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch buddiannau personol na chwip waharddedig.

3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

4. LLES: GWASANAETHAU ADDYSG A PHLANT

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg o'r ffyrdd helaeth y mae'r Adran Addysg a Gwasanaethau Plant yn cefnogi ein hysgolion, unedau cyfeirio disgyblion a lleoliadau arbenigol o ran llesiant dysgwyr a staff.

Mae'r adran yn parhau i weithio ochr yn ochr ag ysgolion yn ymateb i anghenion newidiol dysgwyr, teuluoedd a staff, wrth iddi barhau i fynd i'r afael â phandemig COVID. Mae'r heriau llesiant sy'n wynebu ysgolion yn fwyfwy amlwg a chymhleth, gan ychwanegu pwysau ychwanegol ar staffio.

Roedd yr adroddiad yn nodi:-

- yr hyn sy'n hysbys am lesiant staff a disgyblion ar hyn o bryd;
- sut mae'r Tîm Gwella Ysgolion yn cefnogi llesiant ei staff a'i ddysgwyr;
- mentrau cymorth pellach;
- y Gwasanaeth Seicoleg Addysg a Phlant a'r Tîm Iechyd Emosiynol;
- cymorth corfforaethol a chymorth arall sydd ar gael.

Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am awyru a monitro CO_2 mewn ysgolion a pha fesurau sy'n cael eu cymryd i sicrhau awyru da er mwyn helpu i atal lledaeniad Covid.

Codwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch a oedd unrhyw batrwm adnabyddadwy yn y data a gasglwyd, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor nad oedd patrwm ar y cyfan, fodd bynnag, efallai bod teuluoedd o gefndiroedd mwy difreintiedig yn wynebu mwy o heriau. Roedd yn bwysig nodi bod heriau gwahanol yn codi mewn gwahanol ardaloedd gan fod yr heriau'n newid dros amser;
- Pan ofynnwyd sut mae Rhwydweithiau Cymheiriaid i Gymheiriaid yn gweithio, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor mai fforwm grŵp yw hwn lle mae penaethiaid yn dod at ei gilydd i rannu pryderon a phrofiadau. Yn ogystal, os oes angen cymorth pellach ar unrhyw bennaeth yna trefnir hynny ac mae yna hefyd gyfeirio at gymorth sydd ar gael gan sefydliadau allanol;
- Mynegwyd pryder ynghylch y cynnydd mewn syniadau hunanladdol ac ymgeisiau i gyflawni hunanladdiad a'r ffaith y gall gymryd hyd at 3 wythnos cyn y gellir gweld cwnselydd oherwydd rhestrau aros a gofynnwyd i swyddogion a oes mesurau diogelu ychwanegol yn cael eu rhoi ar waith os yw'r risg yn uchel. Sicrhawyd yr Aelodau, os nodir angen sylweddol ar ddechrau'r cwnsela, bod y plant hynny'n cael sylw'n gyflym. Pan fydd unrhyw ddisgybl yn achosi pryderon, caiff ysgolion gefnogaeth gadarn ar unwaith gan y seicolegwyr addysg a'r timau diogelu. Darperir cymorth uniongyrchol i'r person ifanc a'i deulu;
- Gofynnwyd i swyddogion am lefel y cynnydd. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod 58 o achosion o hunanladdiad neu syniadau hunanladdol wedi'u cyfeirio at y gwasanaeth cwnsela yn 2020/21 o gymharu â 38 yn y flwyddyn flaenorol. Roedd hyn yn gynnydd eithaf sylweddol ond dyma'r darlun cenedlaethol hefyd;
- Cyfeiriwyd at y pwysau digynsail sylweddol a roddwyd ar rieni yn ystod y pandemig o ran addysg yn y cartref a materion cysylltiedig eraill a

chyfeiriwyd at y ffaith nad oedd yr adroddiad yn cyfeirio at ymgysylltu â rhieni h.y. helpu rhieni i helpu eu plant. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod llawer o ysgolion yn ymwneud â'r Rhaglen Iechyd a Hapusrwydd ar ddechrau'r pandemig a oedd yn mynd i'r afael â rhai materion perthnasol fel arferion ac ati. Hefyd, roedd Prosiect Ymgysylltu â Theuluoedd peilot yn cael ei gynnal ar hyn o bryd i ymestyn rhywfaint o'r cymorth a gynigir i deuluoedd ymhellach. Nododd y Cyfarwyddwr, lle mae plant yn y cwestiwn, fod yna orgyffwrdd rhwng Addysg a Gwasanaethau Plant felly mae Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd yn cyfrannu at yr agenda hwn hefyd. Bydd llawer o blant yn cael eu cefnogi gan y ddwy adran;

- Cyfeiriwyd at y pwysau ychwanegol a roddwyd ar benaethiaid mewn perthynas ag ymgynghoriadau a theimlwyd bod hyn yn ddiangen ar hyn o bryd, o ystyried faint o bwysau sydd eisoes ar staff. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod ymgynghori ar strategaethau e.e. Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn ofyniad statudol ac mae'n ofynnol i'r Awdurdod ymgynghori ac adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Ionawr;
- O ran ein hysgolion arbennig, gofynnwyd i swyddogion a oeddent yn llwyddo i gadw mewn cysylltiad agos â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, ffisiotherapi ac asiantaethau eraill yn ystod y pandemig. Hefyd, a oedd y plant hyn yn cael mwy o brofiadau addysgu yn yr awyr agored? Hysbyswyd y Pwyllgor, yn unol â'r holl asesiadau risg, fod gwaith amlasiantaethol wedi parhau i bob dysgwr yn ein holl leoliadau arbenigol. Mae'r arweinwyr wedi bod yn greadigol iawn yn eu ffordd o feddwl er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn cael mynediad at yr ystod o ddysgu a chymorth sydd eu hangen arnynt. Cyfathrebu'n rheolaidd â theuluoedd i sicrhau, hyd yn oed yn ystod amseroedd dysgu cyfunol, pan nad oedd dysgwyr yn gallu bod yn y dosbarth, fod cymorth trwyadl ar waith. Hyd yn oed yn y sefyllfaoedd mwyaf heriol, mae arweinwyr wedi bod yn arloesol iawn yn y ffordd y maent wedi delio â'r dysgwyr mwyaf agored i niwed er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth honno'n parhau. Rydym yn cymeradwyo'n gryf dysgu yn yr awyr agored i'n holl ddysgwyr ac roedd rhai o'r prosiectau a gyflwynwyd yn canolbwyntio ar gael dysgwyr y tu allan, hyd yn oed wrth ddysgu gartref, drwy ymgysylltu â rhieni;
- Mynegwyd pryder ynghylch faint o bwysau a oedd yn cael ei roi ar benaethiaid drwy gydol y pandemig ac yn awr gyda'r amrywiolyn newydd a mwy o bwysau a chyfrifoldeb yn cael eu rhoi ar benaethiaid, gofynnwyd i swyddogion a oeddent yn teimlo'n fodlon bod cymorth digonol yn cael ei ddarparu o ran trosglwyddiad yr haint ac iechyd a diogelwch. Dywedodd y Cyfarwyddwr wrth y Pwyllgor fod swyddogion yn ymwybodol iawn o'r heriau y mae penaethiaid yn eu hwynebu, drwy gyswllt rheolaidd. Cynhyrchodd swyddogion Asesiad Risg gan ddefnyddio templed corfforaethol a darparwyd cymorth i gwblhau'r rhain. Mae'r tîm Iechyd a Diogelwch hefyd wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd ag ysgolion. Tynnodd sylw at y ffaith ei bod yn bwysig cofio iechyd a llesiant swyddogion sydd wedi bod yn gweithio'n ddi-stop drwy gydol y pandemig, gan fod ar alwad yn gyson. Mae'r garfan o benaethiaid a swyddogion wedi gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd; mae wedi bod yn ymdrech ar y cyd sydd wedi gweithio ac yn parhau i weithio'n effeithiol;
- Cyfeiriwyd at gynigion ynghylch cau ysgolion a gofynnwyd i swyddogion a oes unrhyw gymorth yn cael ei ddarparu i blant yn hyn o beth. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod nifer fawr o wahanol bryderon yn cael eu harddangos gan blant ar hyn o bryd oherwydd faint mae'r byd wedi newid.

Mae swyddogion yn gadarn o ran cefnogi ysgolion gydag unrhyw bryderon sy'n dod i'r amlwg boed hynny'n ymwneud â newid yn y ddarpariaeth addysg yn yr ardal neu newid yn yr hinsawdd ac ati. Mae'r staff yn ystyried llesiant plant o sawl ongl wahanol ac mae'r wybodaeth hon yn cael ei bwydo drwodd i swyddogion fel y gallant ddarparu'r cymorth yn unol â hynny a lleihau'r pwysau;

- Cyfeiriwyd at broblemau staffio sy'n cael eu profi mewn ysgolion gan nad oes digon o staff ar gael i baratoi bwyd amser cinio. Cafodd y Pwyllgor wybod y bu heriau staffio drwy gydol y pandemig yn bennaf oherwydd bod staff yn aros am ganlyniadau PCR ac ati. Mae rhywfaint o waith yn cael ei wneud o ran staff cyflenwi, codwyd y mater gyda Llywodraeth Cymru ac mae ychydig o waith yn cael ei wneud gydag Asiantaethau Cyflenwi mewn ymgais i gynyddu'r staff cyflenwi wrth gefn;
- Mynegwyd pryder ynghylch ardaloedd lle mae awyru gwael mewn rhai ysgolion lle mae darlleniadau CO_2 yn ambr neu'n goch yn gyson a gofynnwyd i swyddogion faint o ysgolion sy'n cael eu heffeithio. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod monitorau wedi'u dosbarthu i ysgolion a gofynnwyd iddynt nodi ystafelloedd sy'n ambr neu'n goch yn gyson. Cyn gynted ag y derbynnir y canlyniadau hynny, bydd swyddogion yn ymgynghori â chydweithwyr yn y Gwasanaethau Eiddo i geisio mynd i'r afael â'r awyru gwael yn yr ardaloedd hynny drwy ddefnyddio systemau awyru cludadwy neu beth bynnag sydd ei angen;
- Nododd yr Aelodau y cymorth aruthrol sydd ar gael i ddisgyblion, athrawon a phenaethiaid.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL

4.1 bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn;
4.2 bod y Pwyllgor yn cael diweddariadau rheolaidd ar y sefyllfa o ran awyru yn ein hysgolion.

5. STRATEGAETH 10 MLYNEDD YR ADRAN ADDYSG

Ystyriodd y Pwyllgor Strategaeth 10 Mlynedd yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant a oedd yn dwyn ynghyd feddylfryd strategol, gweledigaeth gyfunol, datganiadau cenhadaeth a blaenoriaethau'r adran dros y 10 mlynedd nesaf. Gweledigaeth arfaethedig newydd yr adran oedd *"Sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael eu gwerthfawrogi a'u gwerthfawrogi'n gyfartal".*

Mae'r strategaeth yn adeiladu ar yr arfer sy'n gwella a oedd eisoes yn amlwg yn y gwasanaeth addysg, er mwyn darparu'r un cyfle i bob dysgwr â chanlyniadau cyson rhagorol. Mae'n nodi gweledigaeth glir ar y cyd ar gyfer y rôl y mae gwasanaethau addysg yn ei chwarae o ran datblygu cymunedau bywiog ac economi lewyrchus yn Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol. Bydd y strategaeth lefel uchel hon yn cael ei gweithredu drwy gynlluniau adrannol ac is-adrannol a bydd hefyd yn amlwg mewn Cynlluniau Datblygu Ysgolion.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried a rhoi sylwadau ar y materion canlynol a llunio barn arnynt i'w cyflwyno i'r Cabinet i'w hystyried:-

1. A yw'r Strategaeth yn bodloni'r nodau fel y nodwyd yn yr adroddiad?
2. A yw'r 20 Darn Diben yn berthnasol ac a ydynt yn adlewyrchu dyheadau'r Cyngor Sir?

3. A ellir gwella'r Strategaeth mewn unrhyw ffordd?

Cyflwynwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Pan ofynnwyd sut yr ymgynghorodd swyddogion ag ysgolion ar y strategaeth, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor y cynhaliwyd ymgynghoriad ar ddwy lefel – cynhaliwyd tri gweithdy gyda phenaethiaid a chynhaliwyd ymgynghoriad hefyd gyda chynghorau ysgolion uwchradd;
- Cyfeiriwyd at y ffaith y bydd carfan sylweddol o blant y mae'r pandemig wedi effeithio arnynt dros y 10 mlynedd nesaf yn mynd drwy'r system ysgolion a phwysleisiwyd yr angen i sicrhau nad oes unrhyw blant yn llithro drwy'r system. Esboniodd y Cyfarwyddwr fod Dyheadau 2, 4 a 5 yn y strategaeth wedi'u hysgrifennu'n benodol gyda hynny mewn golwg. Mae llawer o'r dyheadau lefel uchel hyn wedi'u hysgrifennu gan gofio y byddwn yn delio ag effeithiau'r pandemig am amser maith;
- Cyfeiriwyd at y ffaith bod argaeledd staff sydd â phrofiad perthnasol a sgiliau dwyieithog yn parhau i fod yn her i'r Awdurdod. O ran y Strategaeth 10 Mlynedd a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, gofynnwyd i swyddogion sut y bydd yr Awdurdod yn mynd i'r afael â'r materion hyn h.y. sut y byddwn yn recriwtio'r holl staff sydd â sgiliau iaith angenrheidiol a sut y byddwn yn cadw'r staff hynny. Esboniodd y Cyfarwyddwr mai o dan y strategaethau hyn mae'r cynlluniau busnes adrannol sy'n cynnwys y manylion mewn perthynas â sut yr ydym yn cefnogi'r strategaethau. Mae llawer o staff wedi cymryd rhan mewn dysgu ar-lein yn ystod y pandemig ac mae addysgu'n dal i fod yn alwedigaeth ddeniadol gyda nifer uchel yn ymgymryd â hyfforddiant athrawon ar hyn o bryd;
- Pan ofynnwyd sut y bydd y strategaeth yn gysylltiedig â mesuriadau y gellir eu monitro megis Dangosyddion Perfformiad Allweddol ac amserlenni, eglurodd y Cyfarwyddwr fod swyddogion yn trafod ar hyn o bryd ynglŷn â'r ffordd orau o fesur cynnydd o ran yr 20 dyhead lefel uchel;
- O ran dyhead 3, cyfeiriwyd at y ffaith bod angen inni sicrhau bod gan blant y sgiliau cywir i lwyddo mewn entrepreneuriaeth ac arloesedd penodol. O ran dyhead 18, pwysleisiwyd pwysigrwydd rôl rhieni a gofalwyr gan y teimlwyd bod angen rhieni cefnogol ar ysgolion a bod angen ysgolion cefnogol ar rieni fel ei gilydd;
- Os yw Llywodraeth Cymru o ddifrif ynghylch cyrraedd 1m o siaradwyr Cymraeg yna bydd y 10 mlynedd nesaf yn allweddol yn hynny o beth. Gofynnwyd i swyddogion a fydd targedau penodol ar waith mewn perthynas â nifer y plant sy'n cael eu haddysgu mewn ffrydiau Cymraeg ac ati. Esboniodd y Cyfarwyddwr fod Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau ar gyfer pob Awdurdod Lleol ac ar gyfer Caerfyrddin y targed yw y bydd 68%-74% o blant ym Mlwyddyn 1 yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn diwedd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae'r ffigur yn 58% ar hyn o bryd ac mae'n rhaid inni ymateb i'r her honno.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL

5.1 bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn;
5.2 bod cyfeiriad at rieni a gofalwyr yn cael ei gynnwys yn Nyhead 18 yn y strategaeth;
5.3 bod y sylwadau a wneir uchod yn cael eu trosglwyddo i'r Cabinet i'w hystyried.

6. TREFNIANT SESIYNAU YMGYSYLLTU A'R YSGOL YN Y DYFODOL.

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad yn amlinellu'r trefniadau arfaethedig ar gyfer ymgysylltu ag ysgolion yn y dyfodol yn ystod y cyfyngiadau presennol. Cynhaliwyd ymweliadau ysgolion yn flaenorol gan y Pwyllgor, fodd bynnag, roedd y cyfyngiadau'n golygu nad oedd ymweliadau'n bosibl ac felly roedd swyddogion wedi darparu strwythur newydd, ar ffurf sesiynau ymgysylltu ag ysgolion, a fyddai'n caniatáu craffu er mwyn sicrhau bod gwerthuso a gwella yn gweithio'n effeithiol.

Bydd y sesiynau ymgysylltu arfaethedig ag ysgolion yn helpu'r Pwyllgor Craffu i oruchwylio ansawdd y ddarpariaeth gan yr Awdurdod Lleol ac wrth wneud hynny, yn cyflawni ei swyddogaethau atebolrwydd democrataidd. Byddant hefyd yn rhoi cipolwg i'r Pwyllgor Craffu ar sut mae ysgolion yn paratoi ar gyfer newidiadau sylweddol mewn meysydd fel y cwricwlwm newydd ac Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Bydd ymgysylltu uniongyrchol ag ysgolion yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i aelodau ddeall yn well yr effaith y mae cymorth yr Awdurdod Lleol yn ei gael ar ddarpariaeth ar draws ein system ysgolion.

Dylai sesiynau ymgysylltu ag ysgolion ganolbwyntio ar ansawdd ac effaith trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd o ran ysgolion ac effeithiolrwydd yr Awdurdod Lleol i gefnogi ysgolion a dysgwyr a ddylai gynnwys gwerthuso effeithiolrwydd trefniadau atebolrwydd democrataidd wrth gefnogi ysgolion.

Byddai'r sesiynau ymgysylltu ar ffurf ymweliadau corfforol ag ysgolion (pan ganiateir hynny eto), cyfarfodydd rhithwir/o bell neu ofyn i ysgolion fynychu cyfarfodydd yn siambr y cyngor (pan fo'n bosibl).

Roedd y themâu allweddol a awgrymwyd ar gyfer gweddill y flwyddyn academaidd 2021/22 ac ar gyfer tymor yr Hydref 2022/23 fel a ganlyn:-

	Thema	Ymagwedd
Ionawr 2022	Adferiad o covid a llesiant staff	O bell
Gwanwyn 2022	Parodrwydd ar gyfer trawsnewid ADY	Ar hyn o bryd o bell
Haf 2022	Parodrwydd ar gyfer y Cwricwlwm a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg	Ar hyn o bryd o bell
Hydref 2022	Rhaglen Moderneiddio Addysg – adeiladau	Ymweliadau Ysgol

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL

6.1 nodi'r adroddiad;
6.2 bod sesiynau ymgysylltu ag ysgolion yn cael eu trefnu fel y nodir yn yr adroddiad.

7. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Ystyriodd y Pwyllgor restr o eitemau i'w hystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor a drefnwyd i'w gynnal ar 23ain Rhagfyr, 2021.

Gan fod adroddiad ymgynghori ynghylch y gyllideb wedi'i symud i gyfarfod mis Ionawr, gan adael dim ond un adroddiad i'w ystyried yn y cyfarfod nesaf, gofynnwyd bod yr adroddiad "Timau o Amgylch y Teulu" y bwriedir ei gyflwyno yng nghyfarfod mis Ionawr yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod mis Rhagfyr. Awgrymodd y Cyfarwyddwr y dylid rhoi'r teitl "Cymorth i Deuluoedd" i'r adroddiad a fyddai'n caniatáu cwmpas llawer ehangach.

PENDERFYNWYD nodi'r rhestr o eitemau sydd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf, gan gynnwys y newid uchod.

8. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR YR 8FED GORFFENNAF 2021

PENDERFYNWYD llofnodi yn gofnod cywir cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 8fed Gorffennaf 2021.

_____ _____

CADEIRYDD **DYDDIAD**